



Department  
for Environment  
Food & Rural Affairs



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government



Scottish Government  
Riaghaltas na h-Alba  
gov.scot



Department of  
**Agriculture, Environment  
and Rural Affairs**

[www.daera-ni.gov.uk](http://www.daera-ni.gov.uk)

# Diwygiadau i'r Systemau Nodyn Ailgylchu Gwastraff Deunydd Pacio (PRN) a'r Nodyn Ailgylchu Allforio Gwastraff Deunydd Pacio (PERN) a Chymeradwyaeth y Gweithredwr

## Dogfen Ymgynghori

Dyddiad: 26 Mawrth 2022

Ni yw Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig. Rydym yn gyfrifol am wella a diogelu'r amgylchedd, datblygu'r economi werdd a chefnogi ein diwydiannau bwyd, ffermio a physgota arobryn.

Rydym yn gweithio'n agos gyda'n 33 asiantaeth a chyrff hyd braich ar ein huchelgais i wneud ein haer yn burach, ein dŵr yn lanach, ein tir yn wyrddach a'n bwyd yn fwy cynaliadwy. Ein cenhadaeth yw adfer a gwella'r amgylchedd ar gyfer y genhedlaeth nesaf, a sicrhau bod yr amgylchedd mewn cyflwr gwell nag yr oedd i'r dyfodol.



© Hawlfraint y Goron 2022

Mae'r wybodaeth hon wedi'i thrwyddedu o dan Drwydded Llywodraeth Agored v3.0. I weld y drwydded hon, ewch i [www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/](http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/)

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn [www.gov.uk/government/publications](http://www.gov.uk/government/publications)

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn atom yn

[packaging@defra.gov.uk](mailto:packaging@defra.gov.uk)

[www.gov.uk/defra](http://www.gov.uk/defra)

# Cynnwys

Rhan 1: Cyflwyniad.....	4
1.1. Cefndir.....	4
1.2 Diben yr ymgynghoriad.....	6
1.3 Cwmpas daearyddol.....	7
1.4 Cynulleidfa.....	7
1.5 Ymateb i'r ymgynghoriad.....	7
1.6 Cyfnod ymgynghori.....	8
1.7 Gwybodaeth cyfrinachedd a diogelu data.....	8
1.8 Cydymffurfio â'r egwyddorion ymgynghori.....	9
Rhan 2: Yr Ymgynghoriad.....	10
2.1 Amdanoch chi.....	10
2.2 Cynigion.....	10
2.2.1 Adrodd Data.....	11
2.2.2 Adrodd Refeniw.....	13
2.2.3 Amserlenni.....	14
2.2.4 Rhyngwyneb gyda Chynlluniau Dychwelyd Ernes (DRS).....	21
2.2.5 Prawf 'Cymhwysedd Gweithredwyr' ar gyfer cynlluniau cydymffurfio, ailbroseswyr ac allforwyr.....	26
2.3 Cais am Dystiolaeth.....	27
2.3.1 Ffi Cydymffurfio.....	28

# Rhan 1: Cyflwyniad

## 1.1. Cefndir

Cyhoeddwyd [Ymateb y Llywodraeth](#) i ymgynghoriad 2021 ar Gyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr (EPR) am ddeunydd pacio (Ymateb y Llywodraeth), a gynhaliwyd rhwng 24 Mawrth a 4 Mehefin, ar 26 Mawrth 2022. Cafwyd 1,241 o ymatebion i'r ymgynghoriad. Er bod cefnogaeth gref i'r egwyddorion sy'n sail i'r diwygiadau, ac i lawer o'r cynigion a nodwyd yn yr ymgynghoriad, roedd llai o gytundeb ar fecanwaith talu ymarferol ar gyfer gwastraff deunydd pacio nad yw'n wastraff cartrefi. Ni chafodd yr un o'r opsiynau arfaethedig gefnogaeth y mwyaf, ac roedd 63% o'r ymatebwyr yn anghytuno'n gryf ag un neu fwy o'r opsiynau a gyflwynwyd. Roedd y gwrthwynebiadau hyn yn ymwneud â chymhlethdod a gwerth am arian cyflwyno mecanwaith talu newydd, o ystyried bod sectorau â rhwymedigaeth yn ysgwyddo llawer o'r gost hon eisoes a'r potensial ar gyfer twyll yn y systemau arfaethedig.

Yn ogystal, roedd bron i dair gwaith cymaint o ymatebwyr i'r ymgynghoriad (47%) yn cytuno y byddai problemau o ran peidio â pharhau â'r 'system PRN/PERN' bresennol nes y gellid rhoi mecanwaith talu cynhwysfawr newydd ar waith, o gymharu ag 17% nad oedd yn gweld unrhyw broblemau gyda hyn (roedd 35% arall yn ansicr). O dan y system bresennol hon, rhaid i gynhyrchwyr deunydd pacio sydd â throsiant blynyddol o fwy na £2 filiwn ac sy'n ymdrin â mwy na 50 tunnell o ddeunydd pacio y flwyddyn ddangos eu bod wedi cyflawni eu rhwymedigaethau ailgylchu statudol bob blwyddyn. Cyflawnir hyn drwy brynu nodiadau tystiolaeth, o'r enw Nodiadau Ailgylchu Gwastraff Deunydd Pacio (PRNs) a Nodiadau Ailgylchu Allforio Gwastraff Deunydd Pacio (PERNs), a gyhoeddir gan broseswyr neu allforwyr ailgylchu achrededig ar gyfer pob tunnell o wastraff deunydd pacio a ailgylchir. Gellir prynu PRNs a PERNs yn uniongyrchol gan gynhyrchwyr deunydd pacio neu, yn fwy cyffredin, gan gynlluniau cydymffurfio sy'n gweithredu ar ran eu cynhyrchwyr sy'n aelodau. System sy'n seiliedig ar y farchnad yw hon, gyda phris PRNs yn amrywio yn seiliedig ar gyflenwad a galw.

Yn seiliedig ar yr ymatebion hyn i'r ymgynghoriad ac ymgysylltiad ychwanegol â rhanddeiliaid, mae'r pedair llywodraeth wedi penderfynu gwneud darpariaethau ar gyfer parhau â'r system PRN/PERN yn y Rheoliadau Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr newydd ar gyfer yr holl wastraff deunydd pacio (gwastraff cartrefi a gwastraff nad yw'n wastraff cartrefi) fel ateb dros dro. Bydd y Rheoliadau hyn yn dirymu Rheoliadau Rhwymedigaethau Cyfrifoldeb Cynhyrchwyr (Gwastraff Deunydd Pacio) 2007, a rheoliadau cyfochrog Gogledd Iwerddon, ond byddant yn cynnwys darpariaethau tebyg. Bydd taliad newydd ar wahân yn cael ei wneud gan gynhyrchwyr i awdurdodau lleol ar gyfer rheoli'r broses o gasglu a didoli gwastraff deunydd pacio cartrefi, gyda'r system PRN yn parhau i dalu costau sy'n ymwneud ag ailgylchu'r holl wastraff deunydd pacio, er mwyn sicrhau bod costau net llawn rheoli'r deunydd pacio a osodir ganddynt ar y farchnad yn cael eu talu. Ni fydd rhaid i gynhyrchwyr wneud taliadau ychwanegol ar gyfer rheoli costau

gwastraff deunydd pacio nad yw'n wastraff cartrefi. Caiff y dull hwn ei adolygu yn 2026/27. Ymdrinnir â'r dull hwn yn fanylach yn Ymateb y Llywodraeth.

Er y dylai mesurau EPR ehangach (gan gynnwys taliadau cost net llawn ar gyfer deunydd pacio cartrefi, ffioedd wedi'u modiwlleiddio, labelu gorfodol a chyfathrebu gwell) fynd i'r afael â llawer o ddiffygion y trefniadau cyfrifoldeb cynhyrchwyr presennol, mae sawl gwelliant y gallai fod ei angen i wella gweithrediad y farchnad PRN/PERN ymhellach yn y tymor byr. Mae'r system bresennol wedi'i beirniadu<sup>1</sup> am ansefydlogrwydd a natur anrhagweladwy prisiau PRN/PERN, diffyg tryloywder, y potensial ar gyfer twyll wrth gyhoeddi PRNs/PERNs a dibyniaeth cynhyrchwyr ar allforion i gyflawni targedau ailgylchu. Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am farn ar sawl cynnig i fynd i'r afael â'r materion hyn a gwella effeithiolrwydd cyffredinol y system, gan gynnwys awgrymiadau gan y Pwyllgor Cynghori ar Ddeunydd Pacio (ACP) a chyrrff eraill yn y diwydiant.

Bydd sawl diwygiad a amlinellir yn Ymateb y Llywodraeth yn helpu i fynd i'r afael ag amryw o'r beirniadaethau hyn. Er enghraifft:

- Byddwn yn cyflwyno gofyniad gorfodol i bob ailbroesydd ac allforiwr sy'n ailgylchu neu'n allforio gwastraff deunydd pacio gofrestru gyda rheoleiddiwr. Bydd angen i'r rhai sy'n dymuno cyhoeddi PRNs/PERNs gael eu hachredu a bydd yn ofynnol iddynt gyflwyno gwybodaeth a thystiolaeth, yn ogystal â'r hyn sy'n ofynnol drwy gofrestru. Bydd y rheoleiddwyr yn cyhoeddi canllawiau i helpu ailbroeswyr ac allforwyr i ddeall y gofynion sy'n ymwneud â chofrestru ac achredu. Byddwn hefyd yn cyflwyno prawf cymhwysedd gweithredwyr achrededig ac yn parhau i archwilio cyfleoedd a gyflwynir drwy ddulliau olrhain gwastraff digidol electronig er mwyn cysylltu'r broses o gasglu a didoli deunydd pacio â'r broses o gyhoeddi PRNs a PERNs yn well. Gyda'i gilydd, bwriedir iddynt helpu i leihau achosion o gyhoeddi PRNs/PERNs yn dwyllodrus a gwella atebolrwydd.
- Byddwn yn cyflwyno gofynion ychwanegol ar allforwyr achrededig, gan gynnwys caffael tystiolaeth bod y nwyddau wedi cyrraedd y gyrchfan a thystiolaeth o ailgylchu gan yr ailbroesydd tramor. Byddwn yn ystyried ymhellach pa dystiolaeth ychwanegol y dylai fod angen i allforwyr ei darparu bod gwastraff deunydd pacio wedi'i dderbyn a'i brosesu gan ailbroesydd tramor neu, lle nad yw hynny'n bosibl, bod gwastraff deunydd pacio o ansawdd derbyniol cyn ei allforio. Rydym yn cydnabod bod anawsterau yn aml o ran cael tystiolaeth o ailgylchu o safleoedd tramor a byddwn yn parhau i weithio gyda'r rheoleiddwyr i ystyried sut i fynd i'r afael â'r mater hwn.
- Bydd yn ofynnol hefyd i allforwyr gyflwyno ffurflenni Atodiad VII (y dogfennau allforio sy'n cyd-fynd â gwastraff rhestr werdd) a/neu ddogfennau ategol perthnasol eraill ar gyfer gwastraff deunydd pacio i'r rheoleiddiwr cyn i'r gwastraff gael ei gludo.

---

<sup>1</sup> Gweler <https://www.nao.org.uk/report/the-packaging-recycling-obligations/>

Byddwn yn cyflwyno gofyniad gorfodol am arolygiadau o safleoedd tramor gan weithredwyr trydydd parti yn y Rheoliadau.

- Byddwn yn nodi cyfrifoldebau a dyletswyddau penodol y rheoleiddwyr ac yn sicrhau bod ganddynt fynediad at gasgliad eang o sancsiynau. Bydd hyn yn rhoi mwy o bwerau i reoleiddwyr fonitro a gorfodi, er mwyn sicrhau bod rhwymedigaethau'n cael eu cyflawni.

## 1.2 Diben yr ymgynghoriad

Roedd ymgynghoriad 2021 ar ddiwygiadau i'r system cyfrifoldeb cynhyrchwyr am wastraff deunydd pacio'n cynnwys parhau â'r system PRN/PERN, a sefydlwyd gan Reoliadau Rhwymedigaethau Cyfrifoldeb Cynhyrchwyr (Gwastraff Deunydd Pacio) 2007, fel ateb dros dro ar gyfer cydymffurfio â thargedau ailgylchu. Fel y trafodwyd yn Ymateb y Llywodraeth, rydym bellach yn cynnig cadw'r trefniadau hyn tan o leiaf 2026/27.

Rydym yn ceisio barn ar amryw o welliannau technegol a gweinyddol i'r ffordd mae'r systemau PRN/PERN a'r cynlluniau cydymffurfio'n gweithredu i fynd i'r afael â materion ansefydlogrwydd prisiau, diffyg tryloywder a'r potensial i PRNs/PERNs gael eu cyhoeddi yn dwyllodrus. Bydd yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn llywio penderfyniadau ar ein hymagwedd at y system PRN/PERN fel rhan o'n cynigion ehangach ar gyfer EPR.

Yn benodol, rydym yn canolbwyntio ar y meysydd canlynol i'w diwygio:

- Gofynion adrodd ar werthu PRNs/PERNs
- Gofynion adrodd ar sut y defnyddir y refeniw o werthu PRN/PERNs
- Amserlenni ar gyfer masnachu PRNs/PERNs
- Cyflwyno prawf 'cymhwysedd technegol' ar gyfer gweithredwyr cynlluniau cydymffurfio ac ailbroseswyr/allforwyr achrededig
- Y rhyngwyneb gyda chyflwyniad y System Dychwelyd Ernes (DRS)

Rydym yn gofyn hefyd am farn a thystiolaeth ychwanegol ar amryw o newidiadau ychwanegol i'r system PRN/PERN, gan gynnwys:

- Cyflwyno ffi cydymffurfio i gynhyrchwyr sy'n methu â chyflawni eu rhwymedigaethau

Bwriedir i unrhyw gynigion a gyflwynir yn dilyn yr ymgynghoriad hwn gael eu cyflwyno ochr yn ochr â deddfwriaeth ar ein diwygiadau EPR ehangach, gyda Rheoliadau Rhwymedigaethau Cyfrifoldeb Cynhyrchwyr (Gwastraff Deunydd Pacio) 2007 a Rheoliadau Rhwymedigaethau Cyfrifoldeb Cynhyrchwyr (Gwastraff Deunydd Pacio) (Gogledd Iwerddon) 2007 yn parhau i fod ar waith hyd nes y cânt eu dirymu gan y Rheoliadau Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr.

## 1.3 Cwmpas daearyddol

Mae polisi gwastraff a chyfrifoldeb cynhyrchwyr yn fater datganoledig. Mae'r pedair llywodraeth wedi cytuno ar ddull gweithredu DU-gyfan o ran cyfrifoldeb estynedig cynhyrchwyr mewn perthynas â deunydd pacio. Yn unol â hynny, fel yn yr ymgynghoriadau blaenorol, mae'r ymgynghoriad hwn yn cael ei gynnal ar y cyd gan Lywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban a'r Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig yng Ngogledd Iwerddon. Oni nodir yn wahanol, mae cyfeiriadau at 'lywodraeth' yn gyfeiriadau at Lywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban a'r Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig yng Ngogledd Iwerddon.

Felly, mae'r ddogfen hon a disgrifiadau o'r gyfraith bresennol yn ymwneud â Chymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Mae cyfeiriadau at Weinidogion yn gyfeiriadau at Weinidogion o bob llywodraeth. Mae cyfeiriadau at 'y rheoleiddiwr' neu'r 'rheoleiddwyr' yn gyfeiriadau at Asiantaeth yr Amgylchedd (EA), y Northern Ireland Environment Agency (NIEA), Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) a'r Scottish Environment Protection Agency (SEPA) oni nodir yn wahanol. Mae cyfeiriadau at 'awdurdodau lleol' yn cynnwys cynghorau dosbarth yng Ngogledd Iwerddon.

## 1.4 Cynulleidfa

Croesewir ymatebion i'r ymgynghoriad hwn gan y canlynol:

- Busnesau sy'n ymwneud â dylunio, cynhyrchu a manyleb deunydd pacio
- Busnesau sy'n cynhyrchu cynhyrchion ac yn eu rhoi mewn deunydd pacio, neu sydd â chynhyrchion a roddir mewn deunydd pacio ar eu rhan, ac sy'n rhoi'r cynhyrchion hyn ar farchnad y DU
- Manwerthwyr, marchnadoedd ar-lein a mewforwyr cynhyrchion wedi'u pacio
- Cynlluniau cydymffurfio deunydd pacio
- Sefydliadau sy'n ymwneud â rheoli ac ailgylchu gwastraff deunydd pacio, gan gynnwys awdurdodau lleol, cwmnïau rheoli gwastraff, broceriaid, allforwyr ac ailbroseswyr
- Sefydliadau eraill megis sefydliadau proffesiynol ac aelodaeth, cyrff anllywodraethol, ymgynghorwyr a sefydliadau elusennol sydd â buddiant mewn deunydd pacio a sut mae gwastraff deunydd pacio yn cael ei reoli yn y DU
- Aelodau'r cyhoedd

## 1.5 Ymateb i'r ymgynghoriad

Ymatebwch i'r ymgynghoriad hwn yn un o'r ffyrdd canlynol:

Ar-lein gan ddefnyddio'r hwb ymgynghori 'Citizen Space' yn <https://consult.defra.gov.uk/>

Er hwylustod dadansoddi, byddai'n well cael ymatebion drwy'r platfform 'Citizen Space', ond darperir opsiynau amgen isod:

Drwy e-bost i: [packaging@defra.gov.uk](mailto:packaging@defra.gov.uk)

Yn ysgrifenedig at:

Consultation Coordinator, Defra  
2<sup>nd</sup> Floor, Foss House, Kings Pool  
1-2 Peasholme Green  
York  
YO1 7PX

Mae Defra'n rheoli'r broses ymgynghori ar ran Llywodraethau Cymru, y DU a'r Alban a'r Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig yng Ngogledd Iwerddon.

Bydd y Gweinyddiaethau Datganoledig yn gallu cael mynediad at yr ymatebion i'r ymgynghoriad drwy'r hwb ymgynghori 'Citizen Space'. Os hoffech anfon copi o'ch ymateb i'r ymgynghoriad i Lywodraethau Cymru a/neu'r Alban, anfonwch e-bost i:

Yr Alban: [eqce.cezw@gov.scot](mailto:eqce.cezw@gov.scot)

Cymru: [ResourceEfficiencyAndCircularEconomy@gov.wales](mailto:ResourceEfficiencyAndCircularEconomy@gov.wales)

Os ydych yn ymateb o Ogledd Iwerddon, gofalgwch fod copi o'ch ymateb yn cael ei anfon i [EPRTeam@daera-ni.gov.uk](mailto:EPRTeam@daera-ni.gov.uk) hefyd.

## 1.6 Cyfnod ymgynghori

Bydd yr ymgynghoriad yn para 8 wythnos. Bydd yn agor ar 26 Mawrth 2022 ac yn cau ar 21 Mai 2022.

## 1.7 Gwybodaeth cyfrinachedd a diogelu data

Caiff crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ac Ymateb y Llywodraeth eu cyhoeddi a'u rhoi ar wefan y llywodraeth yn [www.llyw.cymru](http://www.llyw.cymru), [www.gov.uk/defra](http://www.gov.uk/defra), [www.daera-ni.gov.uk](http://www.daera-ni.gov.uk) a [www.gov.scot](http://www.gov.scot)

Bydd y crynodeb yn cynnwys rhestr o ymatebwyr a sefydliadau a ymatebodd, ond ni fydd yn cynnwys enwau personol, cyfeiriadau na manylion cyswllt eraill. Fodd bynnag, gall gwybodaeth a ddarperir mewn ymateb i'r ddogfen ymgynghori hon, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, gael ei chyhoeddi neu ei rhyddhau i bartïon eraill neu eu datgelu yn unol â'r cyfundrefnau mynediad at wybodaeth e.e. Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Deddf Diogelu Data 2018.



Os ydych am i wybodaeth, gan gynnwys data personol rydych yn ei darparu, gael ei thrin yn gyfrinachol, dywedwch hynny'n glir yn ysgrifenedig pan fyddwch yn cyflwyno'ch ymateb i'r ymgynghoriad ac esboniwch pam mae angen i'r manylion hyn gael eu cadw'n gyfrinachol.

Os cawn gais am ddatgeliad o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, byddwn yn rhoi ystyriaeth lawn i'ch esboniad, ond oherwydd y gyfraith ni allwn roi sicrwydd y gellir cynnal cyfrinachedd o dan unrhyw amgylchiadau. Ni fydd ymwadiad cyfrinachedd awtomatig a gynhyrchir gan eich system TG yn cael ei ystyried yn gais am gyfrinachedd ynddo'i hun.

Defra yw'r rheolydd data mewn perthynas ag unrhyw ddata personol a ddarperir gennych, a gellir gweld Siarter Gwybodaeth Personol Defra, sy'n rhoi manylion am eich hawliau mewn perthynas â thrin eich data personol, yn:

<https://www.gov.uk/government/organisations/department-for-environment-food-rural-affairs/about/personal-information-charter>

## 1.8 Cydymffurfio â'r egwyddorion ymgynghori

Mae'r ymgynghoriad hwn yn cael ei gynnal yn unol â'r Egwyddorion Ymgynghori sydd yng nghanllawiau'r Weithrediaeth Gwell Rheoleiddio sydd i'w gweld yn:

<https://www.gov.uk/government/publications/consultation-principles-guidance>.

Os oes gennych unrhyw sylwadau neu gwynion am y broses ymgynghori, anfonwch nhw i'r cyfeiriadau canlynol:

Trwy e-bost: [consultation.coordinator@defra.gov.uk](mailto:consultation.coordinator@defra.gov.uk)

Neu'n ysgrifenedig at:

Consultation Co-ordinator,  
Department for Environment, Food and Rural Affairs,  
1C, Nobel House,  
17 Smith Square,  
London SW1P 3JR

# Rhan 2: Yr Ymgynghoriad

## 2.1 Amdanoch chi

**C1. Beth yw eich enw?**

**C2. Beth yw eich cyfeiriad e-bost?**

**C3. Pa un sy'n eich disgrifio orau? Rhowch enw'r sefydliad/busnes rydych yn ei gynrychioli ac amcan o'i faint/nifer y staff (lle bo hynny'n berthnasol).**

(Ticiwch un opsiwn. Os oes mwy nag un categori'n berthnasol, dewiswch yr un sy'n disgrifio orau y sefydliad rydych yn ei gynrychioli yn eich ymateb.)

- Sefydliad/corff masnach sy'n cynrychioli busnes
- Dylunydd/gweithgynhyrchydd/trawsnewidydd deunydd pacio
- Gweithgynhyrchydd cynnyrch/llewr pecyn
- Dosbarthwr
- Manwerthwr, gan gynnwys marchnad ar-lein
- Cwmni rheoli gwastraff
- Ailbroesydd/allforiwr
- Llywodraeth leol
- Grŵp cymunedol
- Corff anllywodraethol
- Elusen neu fenter gymdeithasol
- Ymgynghoriaeth
- Academaidd neu ymchwil
- Unigolyn
- Arall
- Os 'Arall', rhowch fanylion:

**C4. Ydych chi am i'ch ymateb fod yn gyfrinachol? Gweler y wybodaeth cyfrinachedd a diogelu data yn Adran 1.7 y ddogfen hon.**

Ydw / Nac ydw

Os 'Ydw', rhowch eich rheswm.

## 2.2 Cynigion

Cyflwynwyd y system PRN/PERN ym 1997 o dan y Rheoliadau Rhwymedigaethau Cyfrifoldeb Cynhyrchwyr (Gwastraff Deunydd Pacio) fel ffordd o ddangos tystiolaeth o gydymffurfiaeth â thargedau ailgylchu, ac mae wedi aros bron yr un fath ers hynny. Ar ei ffurf bresennol, mae'r system PRN/PERN wedi'i beirniadu am ddiffyg tryloywder, y cyfleoedd i PRNs/PERNs gael eu cyhoeddi'n dwyllodrus ac anghymesuredd y wybodaeth sydd ar gael i gynhyrchwyr ac ailbroeswyr ac allforwyr, sy'n gwyrddroi'r farchnad ac yn cyfrannu at yr ansefydlogrwydd prisiau PRN/PERN a welir drwy'r flwyddyn. Mae'r

ansefydlogrwydd hwn, yn ei dro, wedi annog pobl i beidio â buddsoddi yn seilwaith ailgylchu'r DU ac wedi arwain at fwy o ddibyniaeth ar farchnadoedd allforio.

Mae'r cynigion canlynol yn ceisio mynd i'r afael â'r beirniadaethau hyn a gwella gweithrediad cyffredinol y system.

### 2.2.1 Adrodd Data

O dan Reoliadau Rhwymedigaethau Cyfrifoldeb Cynhyrchwyr (Gwastraff Deunydd Pacio) 2007, mae'n ofynnol i gynhyrchwyr, cynlluniau cydymffurfio, ailbroseswyr ac allforwyr adrodd data penodol i'r rheoleiddwr ar wahanol adegau yn ystod y flwyddyn gydymffurfio. Ar gyfer ailbroseswyr ac allforwyr, mae hyn yn cynnwys nifer y PRNs/PERNs sydd wedi'u cyhoeddi, cyfanswm y refeniw a gafwyd drwy werthu PRNs/PERNs a sut y defnyddiwyd y refeniw hwn. Fodd bynnag, nid oes unrhyw ofynion ar hyn o bryd i ailbroseswyr ac allforwyr gyhoeddi data ar argaeledd PRNs/PERNs na'r prisiau a delir gan gynhyrchwyr neu gynlluniau cydymffurfio.

Rydym yn cyflwyno newidiadau i rwymedigaethau cynhyrchwyr<sup>2</sup> i adrodd ar ddata deunydd pacio o dan ein cynigion EPR ehangach. Rydym yn datblygu plattform digidol a fydd yn caniatáu i gynhyrchwyr gofrestru ac adrodd eu data, a bydd data perthnasol yn cael ei rannu gyda Gweinyddwr y Cynllun a'r rheoleiddwr. Bydd yn ofynnol i gynhyrchwyr adrodd ar faint o ddeunydd pacio, a'r math o ddeunydd pacio, y maent wedi'i roi ar y farchnad, a gwybodaeth am a oes modd ailgylchu'r deunydd pacio hwn.

Bydd yn ofynnol i gynhyrchwyr adrodd data deunydd pacio ddwywaith y flwyddyn, ym mis Hydref a mis Ebrill, gyda phob cyflwyniad data'n cwmpasu cyfnod o chwe mis. Bydd gan gynhyrchwyr dri mis i goladu ac adrodd ar y data hwn: er enghraifft, byddai'r cyflwyniad ym mis Ebrill yn gofyn am ddata o chwe mis olaf y flwyddyn galendr flaenorol (h.y. mis Gorffennaf i fis Rhagfyr). Bydd y cynnydd hwn mewn adrodd data'n rhoi gwybodaeth i'r sector casglu ac ailbrosesu am lefel y galw am dystiolaeth, gan eu helpu i wneud penderfyniadau gweithredol ar gyfer y flwyddyn gydymffurfio.

Fel rhan o'r ymgynghoriad hwn, rydym yn cynnig amryw o newidiadau ychwanegol i'r broses o adrodd data, a ddylai helpu i wella tryloywder y farchnad:

#### **Cynnig 1: Adroddiadau misol gorfodol ar ddata ailbrosesu/allforio**

O dan Reoliadau Rhwymedigaethau Cyfrifoldeb Cynhyrchwyr (Gwastraff Deunydd Pacio) 2007, mae'n ofynnol i ailbroseswyr ac allforwyr achrededig lanlwytho data ar wastraff deunydd pacio a dderbynnir a swm y dystiolaeth a gyflwynir i'r Gronfa Ddata Gwastraff

---

<sup>2</sup> Fel rhan o'n diwygiadau EPR ehangach, bydd yn ofynnol i gynhyrchwyr deunydd pacio sydd â throiant blynyddol o £1 miliwn neu fwy, ac sy'n rhoi 25 tunnell neu fwy o ddeunydd pacio ar y farchnad bob blwyddyn, adrodd ar eu data deunydd pacio o 2024 ymlaen. Ceir rhagor o fanylion am hyn yn Ymateb y Llywodraeth.

Deunydd Pacio Genedlaethol (NPWD) bob chwarter. Er y bydd rhai gweithredwyr yn lanlwytho data mewn amser real, bydd llawer yn lanlwytho data mewn swmp ar ddiwedd pob chwarter. Mae hyn yn golygu y gall fod bwch amser sylweddol rhwng y deunydd pacio gwastraff yn cael ei dderbyn ar y safle a'r farchnad yn cael gwybod am y tunelli hynny.

Rydym yn cynnig y dylai fod yn ofynnol i'r adroddiadau hyn gael eu cyflwyno'n fisol, gyda sancsiwn priodol am beidio â chydymffurfio, er mwyn darparu data mwy diweddar ar gyfer cynhyrchwyr a chynlluniau cydymffurfio. Byddai adroddiad deinamig ffurfiol yn cael ei gyhoeddi'n fisol gan y rheoleiddwyr, gan roi darlun mwy cywir ac amserol o'r farchnad a'r sefyllfa gydymffurfio gyffredinol yn erbyn cyfanswm y rhwymedigaeth. Byddai hyn yn helpu cynhyrchwyr a chynlluniau cydymffurfio i lywio eu strategaeth ar gyfer cydymffurfio a'u cynlluniau ar gyfer caffael tystiolaeth.

### **C5. Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylid cyflwyno adroddiadau misol gorfodol ar gyfer data ailbrosesu/allforio?**

- a. Cytuno
- b. Anghytuno
- c. Ddim yn cytuno nac yn anghytuno

Rhowch y rheswm dros eich ymateb.

### **Cynnig 2: Adroddiadau misol gorfodol ar brisiau PRN/PERN a data refeniw**

O dan amodau'r farchnad a grëwyd gan Reoliadau 2007, amcangyfrifir mai dim ond 10-15% o'r holl PRNs/PERNs a brynir bob blwyddyn sy'n cael eu prynu ar y 'farchnad agored', drwy blatfform masnachu. Mae gwybodaeth am brisiau o'r prosesau masnachu hyn ar gael, drwy'r wasg fasnach a gwefannau amrywiol, ac fe'i defnyddir yn aml fel meincnod gan gynlluniau cydymffurfio (a'r rhai sy'n cofrestru'n uniongyrchol) ac ailbroseswyr ac allforwyr wrth drafod prisiau.

Fodd bynnag, mae'r mwyafrif llethol o'r masnachu (85-90%), yn gyfnewidiadau dwyochrog rhwng ailbroseswyr neu allforwyr a chynlluniau cydymffurfio yn seiliedig ar gontractau blynyddol neu chwarterol ar gyfer cyflenwi tystiolaeth, lle nad oes angen adrodd prisiau. Mae hyn yn golygu bod gwybodaeth gyhoeddus am y cyflenwad a'r galw am PRNs/PERNs ar y farchnad yn gyfyngedig, a bod gan ailbroseswyr ac allforwyr fantais wybodaeth dros gynhyrchwyr a chynlluniau cydymffurfio.

Er mwyn gwella tryloywder y farchnad a'r wybodaeth am bris ac argaeledd PRNs/PERNs gydol y flwyddyn, rydym yn cynnig gwneud adroddiadau misol ar werthu PRNs/PERNs gan ailbroseswyr ac allforwyr yn orfodol. Gallai hyn fod yn ychwanegol at yr adroddiadau cyfaint misol a gynigir yng Nghynnig 1, a byddai'n cynnwys data ar y prisiau a godir ac a delir gan gynhyrchwyr a chynlluniau cydymffurfio am dystiolaeth. Byddai'r wybodaeth hon yn cael ei hadrodd i'r rheoleiddwr/rheoleiddwyr, a fyddai'n crynhoi a phrosesu'r data ar drafodion, a sicrhau ei fod yn ddienw, ac yn cyhoeddi'r cyfansymiau tunelli cyfanredol a'r

cyfartaleddau prisiau. Byddai hyn yn golygu bod y wybodaeth berthnasol am y farchnad ar gael heb beryglu gwybodaeth fasnachol sensitif.

### **C6. Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylid cyflwyno adroddiadau misol gorfodol ar brisiau PRN/PERN a data refeniw?**

- a. Cytuno
- b. Anghytuno
- c. Ddim yn cytuno nac yn anghytuno

Rhowch y rheswm dros eich ymateb.

#### **2.2.2 Adrodd Refeniw**

Un feirniadaeth hirsefydlog o'r system PRN yw'r diffyg gwelededd o ran sut y defnyddir y refeniw sy'n gysylltiedig â gwerthu PRNs/PERNs. Ar hyn o bryd, o dan reoliad 24(1)(c)(i) o Reoliadau Rhwymedigaethau Cyfrifoldeb Cynhyrchwyr (Gwastraff Deunydd Pacio) 2007, fel rhan o'r broses achredu, mae'n ofynnol i ailbroseswyr ac allforwyr ddarparu dadansoddiad o sut y maent wedi defnyddio'r refeniw a gafwyd ar gyfer datblygu mwy o gapasiti ar gyfer casglu ac ailbrosesu, yn ogystal â datblygu marchnadoedd newydd.

Mae'r adroddiadau presennol yn erbyn y categorïau canlynol<sup>3</sup>:

- Seilwaith a chapasiti
- Casglu cyllid
- Gostyngiad mewn pris a datblygu marchnadoedd newydd
- Costau cydymffurfio â'r rheoliadau
- Cadw ar gyfer buddsoddiad yn y dyfodol
- Datblygu strategaethau cyfathrebu

O dan y system a sefydlir gan y diwygiadau EPR a amlinellir yn Ymateb y Llywodraeth, bydd mwy o dryloywder o ran ariannu'r gwaith o reoli gwastraff deunydd pacio, yn benodol drwy swyddogaethau Gweinyddwr y Cynllun a thaliadau uniongyrchol i awdurdodau lleol i dalu am eu costau wrth gasglu a didoli gwastraff deunydd pacio cartrefi.

Er mwyn cynyddu tryloywder y refeniw sy'n gysylltiedig â gwerthu PRNs/PERNs, rydym yn cynnig diwygio'r categorïau adrodd a chyflwyno is-gategorïau er mwyn gwneud y broses adrodd yn fwy manwl ac ystyrlon. Dyma'r awgrymiadau ar gyfer y meysydd adrodd newydd:

- Seilwaith
  - Prynu asedau newydd
  - Cefnogi a chynnal a chadw seilwaith ailbrosesu/allforio

---

<sup>3</sup> Gweler <https://npwd.environment-agency.gov.uk/>

- Ailbroseu/Allforio
  - Cymorth pris ar gyfer deunydd (prynu)
  - Cymorth pris ar gyfer deunydd (gwerthu)
  
- Casglu a Didoli
  - Cymorth pris ar gyfer deunydd (prynu)
  - Cymorth pris ar gyfer deunydd (gwerthu)
  - Cymorth ar gyfer casgliadau busnes
  - Cymorth ar gyfer casgliadau cartrefi
  
- Cyfathrebu
  - Ymgyrchoedd lleol (gydag Awdurdodau Lleol)
  - Ymgyrchoedd cenedlaethol (gyda Gweinyddwr y Cynllun/arall)
  - Cyfathrebu sy'n gysylltiedig â deunydd penodol
  - Cysylltiadau uniongyrchol â chyflenwyr
  
- Datblygu'r Farchnad
  - Datblygu marchnadoedd y DU
  - Datblygu'r farchnad dramor
  - Defnyddio'r refeniw i ddatblygu marchnadoedd tramor/allforio newydd a/neu ddefnyddiau newydd ar gyfer y deunydd eildro

Byddem yn ceisio cyhoeddi canllawiau manwl hefyd ar yr hyn y bwriedir ei gynnwys ym mhob un o'r categorïau newydd.

### **C7. Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r dull arfaethedig o adrodd ar refeniw ar gyfer ailbrosewyr ac allforwyr?**

- a. Cytuno
- b. Anghytuno
- c. Ddim yn cytuno nac yn anghytuno

Rhowch y rheswm dros eich ymateb.

### **C8. Awgrymwch unrhyw gategorïau/is-gategorïau eraill y credwch y dylid eu cynnwys.**

#### **2.2.3 Amserlenni**

Ar hyn o bryd, o dan Reoliadau 2007, mae'n ofynnol i gynhyrchwyr (neu eu cynlluniau cydymffurfio) ddarparu tystiolaeth eu bod wedi bodloni eu rhwymedigaethau ailgylchu yn flynyddol, a rhaid iddynt gael digon o PRNs/PERNs i ddangos eu bod wedi bodloni'r rhwymedigaethau hyn (a fynegir fel targedau) erbyn 31 Ionawr yn y flwyddyn ganlynol (e.e. 31 Ionawr 2023 ar gyfer blwyddyn gydymffurfio 2022). Gallant barhau i brynu

PRNs/PERNs ym mis Ionawr, a gyhoeddir ar wastraff deunydd pacio a ailgylchwyd neu a allforiwyd i'w ailgylchu yn ystod y flwyddyn flaenorol.

Os yw pob cynhyrchydd wedi cyrraedd eu targedau ar gyfer 2021 a bod tystiolaeth 'dros ben', yna rhoddir rhywfaint o hyblygrwydd i gynhyrchwyr a chynlluniau cydymffurfio, gan y caniateir iddynt brynu PRNs/PERNs o wastraff a ail-broseswyd neu a allforiwyd ym mis Rhagfyr y flwyddyn flaenorol (e.e. Rhagfyr 2021 ar gyfer blwyddyn gydymffurfio 2022) i fodloni eu rhwymedigaethau yn y flwyddyn gydymffurfio dan sylw (a elwir yn 'cario drosodd' fel arfer). Mae hyn yn 'ymestyn' y cyfnod cydymffurfio i 13 mis i bob pwrpas.

Beirniadaeth arall o'r trefniadau presennol yw'r ansefydlogrwydd sylweddol a welir mewn prisiau PRN/PERN gydol y flwyddyn, oherwydd newidiadau cylchol yn y cyflenwad a'r galw. Mae dadansoddiad blaenorol wedi dangos bod yr ansefydlogrwydd hwn yn cynyddu ar ddiwedd y flwyddyn gydymffurfio, oherwydd yr ansicrwydd ynghylch argaeledd y PRNs/PERNs sy'n weddill. Gall hyn gael ei waethygu, mewn rhai achosion, gan ailbroseswyr ac allforwyr yn dal PRNs/PERNs yn ôl o'r farchnad tan ddiwedd y flwyddyn, pan fo'r galw'n debygol o fod ar ei uchaf, er mwyn chwyddo prisiau. Gallai'r cynigion yn Adran 2.2.1 o'r ymgynghoriad hwn, a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i ailbroseswyr ac allforwyr lanlwytho data ar wastraff deunydd pacio a dderbynnir yn amlach, fynd i'r afael â hyn yn rhannol. Byddai hyn yn golygu y byddai cynhyrchwyr a chynlluniau'n gwybod faint o ddeunydd a allai fod ar gael fel tystiolaeth, gan wella tryloywder y farchnad.

Mae'r opsiynau isod ynghylch newidiadau i'r amserlenni ar gyfer cydymffurfio wedi'u nodi hefyd i helpu i fynd i'r afael â'r newidiadau cylchol yn y cyflenwad a'r galw a'r problemau ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r opsiynau hyn, y gellid eu defnyddio gyda'i gilydd neu ar wahân, yn cynnwys:

1. **Gosod terfyn amser ar fater tystiolaeth** – cafwyd beirniadaeth gan gynhyrchwyr am y diffyg tystiolaeth sydd ar gael; credir bod rhywfaint ohoni'n cael ei dal yn ôl rhag ei gwerthu gan ailbroseswyr ac allforwyr gan ddisgwyl cynnydd mewn prisiau tua diwedd y flwyddyn gydymffurfio. Er mwyn osgoi hyn, awgrymwyd y dylai fod yn amod y dylai PRNs/PERNs gael eu cyhoeddi o fewn cyfnod penodol o'r pwynt derbyn gwastraff (y dyddiad y derbynnir gwastraff deunydd pacio ar y safle ar gyfer ailbroseswyr, neu'r dyddiad y caiff y gwastraff ei allforio ar gyfer allforwyr). Y cyfnodau amser a awgrymir yw mis neu dri mis o'r dyddiad derbyn. Dylid nodi nad yw'r dyddiad derbyn hwn yn gysylltiedig â'r union ddyddiad ailbrosesu o reidrwydd. Byddai'r opsiwn hwn yn golygu y byddai ailbroseswyr ac allforwyr yn sicrhau bod tystiolaeth ar gael i'r farchnad mewn modd amserol. Byddai hyn yn cynyddu'r wybodaeth sydd ar gael i gynhyrchwyr a chynlluniau cydymffurfio ar y dystiolaeth sydd ar gael ar hyn o bryd, gan ganiatáu iddynt wneud penderfyniadau gwell ar gyfer rheoli eu cydymffurfiaeth. Er mwyn gwneud hyn yn ymarferol i ailbroseswyr ac allforwyr bach, gellid pennu trothwy a fyddai'n sbarduno cyhoeddi tystiolaeth (e.e. pan oeddent wedi cynhyrchu 50 neu 100 tonnell o dystiolaeth y chwarter; gellid addasu hyn yn ôl y math o ddeunydd).

2. **Caniatáu estyniad i'r cyfnod cydymffurfio presennol** – opsiwn arall fyddai caniatáu cyfnod cydymffurfio estynedig (estyniad o ddau i dri mis). Byddai hyn yn caniatáu 'ail-gydbwysu' rhwng dwy flwyddyn gydymffurfio os oes prinder tystiolaeth ar gyfer math penodol o ddeunydd mewn blwyddyn benodol, drwy ganiatáu i wastraff deunydd pacio a dderbynnir ym mis Ionawr a/neu Chwefror o 'Flwyddyn 2' gael ei ddefnyddio i gynhyrchu tystiolaeth ar gyfer 'Blwyddyn 1' ('cario'n ôl' i bob pwrpas). Byddai hyn yn lleihau'r pwysau ar ddiwedd y flwyddyn gydymffurfio ac yn cynyddu hylifedd. Dylid nodi y byddai hyn wedyn yn gofyn am gasglu ac ailbrosesu 'ychwanegol' ym Mlwyddyn 2, er mwyn sicrhau nad yw'r prinder yn cael ei gario drosodd eto i Flwyddyn 3. Y bwriad hefyd fyddai i'r estyniad fod yn arwydd i'r farchnad y byddai angen mwy o dystiolaeth ym Mlwyddyn 2. Cyflwynwyd yr opsiwn hwn gan Fforwm y Cynllun Deunydd Pacio (PSF).
3. **Symud i system dreigl/aml-flwyddyn** – er mwyn lleddfu'r dyddiad cau 'ar ddiwedd y flwyddyn', awgrymwyd y dylai'r targedau symud i system dreigl neu aml-flwyddyn. Defnyddir targedau aml-flwyddyn mewn cyfundrefnau cyfrifoldeb cynhyrchwyr eraill (e.e. batris) a gellid eu defnyddio i ganiatáu i gynhyrchwyr fodloni eu targedau dros gyfnod estynedig. Byddai hyn yn rhoi mwy o amser i gynhyrchwyr ac ailbroseswyr ac allforwyr ymateb i newidiadau mewn prisiau ar y farchnad ac i fuddsoddi mewn gwelliannau i'w gallu i gasglu ac ailbrosesu.

Manylir ar yr opsiynau hyn isod.

### **Opsiwn 1: Lleihau'r amserlen ar gyfer masnachu PRNs/PERNs o system flynyddol i system fisol neu chwarterol**

Fel y nodwyd uchod, mae'r farchnad PRN/PERN yn anghymesur gan fod prynwyr (cynhyrchwyr a chynlluniau cydymffurfio) yn gorfod prynu nifer benodol o PRNs/PERNs, ond nad oes rheidrwydd ar werthwyr (ailbroseswyr ac allforwyr) i'w gwerthu. Un o'r problemau a nodwyd gyda'r amserlen gydymffurfio flynyddol bresennol yw'r potensial i ailbroseswyr ac allforwyr atal PRNs/PERNs o'r farchnad nes bod prisiau ar eu huchaf, ar ddiwedd y flwyddyn gydymffurfio fel arfer.

Drwy leihau'r amserlen ar gyfer gwerthu PRNs/PERNs o ddyddiad derbyn neu adeg allforio'r gwastraff deunydd pacio, byddai gwerth PRNs/PERNs yn dod yn fwy sefydlog gan y byddai ailbroseswyr ac allforwyr yn llai abl i atal tystiolaeth nes bod prisiau ar eu huchaf. Wrth i dystiolaeth ddod ar gael mewn patrwm mwy rheolaidd, byddai llai o newidiadau cylchol yn y cyflenwad a'r galw. Pe bai adroddiadau misol gorfodol ar werthu PRN/PERN yn cael eu cyflwyno hefyd (gweler Adran 2.2.1, Cynnig 2), byddai mwy o wybodaeth ar gael am y cyflenwad o PRNs/PERNs ar y farchnad bob mis.

Os yw PRNs/PERNs yn parhau heb eu gwerthu ar ôl y cyfnod amser penodol o dderbyn y gwastraff, gellid cadw'r dystiolaeth yn yr NPWD (neu system electronig arall) yn erbyn y gydymffurfiaeth ar ddiwedd y flwyddyn. Bryd hynny, byddai'r rheoleiddiwr yn gwneud y



penderfyniad i 'ryddhau'r' holl dystiolaeth heb ei gwerthu; er mwyn sicrhau tegwch, byddai angen i'r dystiolaeth gael ei gwerthu am brisiau cyfartalog y farchnad ar gyfer PRN/PERNs ar gyfer y deunydd hwnnw yn y flwyddyn honno.

Cafwyd sawl enghraifft proffil uchel o ailbroseswyr ac allforwyr yn atal PRNs/PERNs rhag cael eu gwerthu ac yn achosi aflonyddwch i'r farchnad, ac amryw o gwynion gan gynlluniau a chynhyrchwyr ynghylch hyn yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Nid yw'n glir pa mor gyffredin yw'r arfer o atal PRNs/PERNs tan ddiwedd y flwyddyn, yn enwedig ymhlith ailbroseswyr ac allforwyr llai o faint, gan eu bod yn wynebu risg wedyn o fethu â gwerthu'r dystiolaeth hon o gwbl (os yw pob cynhyrchydd a chynllun cydymffurfio wedi bodloni eu gofynion). Rhagdybir mai dim ond ailbroseswyr ac allforwyr sydd â digon o lif arian sy'n gallu fforddio dal dystiolaeth yn ôl, a byddai'n well gan rai werthu eu PRNs/PERNs sydd ar gael cyn gynted â phosibl. Felly, byddai'r mesur hwn yn helpu i warchod rhag tarfu ar y farchnad gan ailbroseswyr ac allforwyr mwy o faint yn y dyfodol.

### **C9. Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig i leihau'r amserlen ar gyfer masnachu PRNs/PERNs?**

- a. Cytuno
- b. Anghytuno
- c. Ddim yn cytuno nac yn anghytuno

Rhowch y rheswm dros eich ymateb.

### **Opsiwn 2: Ymestyn hyblygrwydd y cyfnod cydymffurfio presennol**

Mae grwpiau diwydiant, gan gynnwys Fforwm y Cynllun Deunydd Pacio (PSF), wedi awgrymu 'mecanwaith ymestyn' a fyddai'n rhoi hyblygrwydd ychwanegol ar ddiwedd y flwyddyn gydymffurfio. Byddai'r cynnig hwn yn caniatáu i dunelli o wastraff deunydd pacio a dderbynnir ym mis Ionawr (ac o bosibl ym mis Chwefror) gael eu defnyddio i gynhyrchu dystiolaeth ar gyfer rhwymedigaethau ailgylchu yn y flwyddyn flaenorol. Cynigiwyd hyn fel ffordd o fynd i'r afael â diffygion posibl yn y dystiolaeth sydd ar gael mewn blwyddyn gydymffurfio benodol, gan ganiatáu ail-gydbwyso ar draws dwy flwyddyn gydymffurfio. Byddai ond yn berthnasol i'r ffrydiau gwastraff hynny a oedd yn cael anawsterau. Gallai'r diffyg hwn yn y cyflenwad o PRNs/PERNs gael ei achosi gan, er enghraifft, ostyngiad bydeang yn y galw am ddeunydd eildro oherwydd dirwasgiad neu – fel yn ystod pandemig Covid-19 – gostyngiad mewn lefelau casglu gwastraff deunydd pacio. Dim ond am y cyfnod penodedig (h.y. mis neu ddau) y byddai'r trefniant hwn yn gweithredu, a'r bwriad yw gwella hylifedd yn y farchnad drwy ddarparu hyblygrwydd ychwanegol mewn blynyddoedd lle ceir dystiolaeth o ddiffyg posibl.

Mae'r amserlen gydymffurfio bresennol sydd yn Rheoliadau 2007 yn rhoi ychydig o hyblygrwydd i gynhyrchwyr a chynlluniau cydymffurfio i gyflawni eu rhwymedigaethau ailgylchu blynyddol. Caniateir i gynhyrchwyr a chynlluniau cydymffurfio brynu PRNs/PERNs a gyhoeddir ar wastraff deunydd pacio a dderbyniwyd neu a allforiwyd ym

mis Rhagfyr y flwyddyn flaenorol i gyflawni eu rhwymedigaethau yn y flwyddyn nesaf, os nad oes angen iddo fodloni targedau (a elwir yn 'cario drosodd'). Gallant brynu PRNs/PERNs tan ddiwedd mis Ionawr y flwyddyn ganlynol (a gyhoeddwyd ar wastraff deunydd pacio a ailgylchwyd neu a allforiwyd i'w ailgylchu yn ystod y flwyddyn flaenorol) i gyflawni eu rhwymedigaethau yn y flwyddyn gydymffurfio flaenorol.

Hefyd, dim ond ar gyfer pob tunnell o ddeunydd pacio y gall cynhyrchwyr a chynlluniau cydymffurfio, ac ailbroseswyr ac allforwyr, fasnachu eu gofynion 'ffisegol' eu hunain. Mae hyn yn gwneud y farchnad PRN/PERN yn wahanol i lawer o farchnadoedd nwyddau eraill, lle gall masnachwyr ariannol neu ddamcaniaethol, yn ogystal â masnachwyr ffisegol, fasnachu mor aml ag y mynnant. Fel arfer, mae mwy o hyblygrwydd mewn marchnadoedd o'r fath, gan ganiatáu i werthiannau gael eu bancio ar gyfer blynyddoedd i ddod neu eu benthycu o flynyddoedd i ddod. Mae 'marchnadoedd y dyfodol' yn caniatáu i'r risg gael ei rhannu gan y rhai nad ydynt eisiau'r risg i'r rhai sydd eisiau'r risg, neu sy'n gallu rheoli'r risg honno orau. Fodd bynnag, gan fod targedau o dan y system bresennol yn cael eu pennu'n flynyddol, yn seiliedig ar faint o ddeunydd pacio a drafodir mewn blwyddyn benodol, mae 'bancio' a 'benthycu' rhwng blynyddoedd yn ei gwneud hi'n anodd gwybod a yw targedau wedi'u cyflawni.

Cynnig y diwydiant oedd y dylai'r data ailgylchu a adroddir gael ei fonitro'n ofalus gan grwpiau diwydiant (y Pwyllgor Cynghori ar Ddeunydd Pacio (ACP) o bosibl) i ganfod a yw'r farchnad ar y trywydd iawn i fodloni cydymffurfiaeth neu i nodi unrhyw darfu posibl. Gellid gwneud hyn ar gyfnodau allweddol gydol y flwyddyn (yn fisol neu'n chwarterol), i ragweld unrhyw broblemau tebygol ar yr ochr gyflenwi. Pe bai cytundeb nad oedd modd adfer y diffyg a ragwelwyd o fewn y flwyddyn, byddai cais am estyniad i'r amserlen ar gyfer cydymffurfio yn cael ei gyflwyno i'r awdurdod perthnasol.

Mae rhywfaint o gefnogaeth yn y diwydiant i'r awgrym hwn. Fodd bynnag, mae'n debygol o fod yn gymhleth yn weinyddol ac mae angen datblygu ymhellach fanylion sut y byddai mecanwaith ymestyn yn gweithredu o fewn y fframwaith rheoleiddio. Pe bai'r cynnig hwn yn cael ei ddatblygu, credwn y byddai angen set glir o feini prawf gwrthrychol ynghylch yr anawsterau o fewn y farchnad a fyddai'n cael ei defnyddio fel sail ar gyfer cyflwyno estyniad i'r amserlen ar gyfer cydymffurfio. Byddai angen amlinellu'r meini prawf hyn yn y rheoliadau i roi sicrwydd a thryloywder ynghylch pryd y byddai'r mecanwaith ymestyn yn cael ei roi ar waith, ac i sicrhau bod y mecanwaith yn cael ei ddefnyddio'n gyson.

Un ffordd y gallai mecanwaith ymestyn weithredu fyddai i ddiwydiant, drwy fforwm y cytunwyd arno, wneud cais i'r rheoleiddwyr (neu'r awdurdod priodol yn y rheoliadau) i ymestyn y cyfnod ar gyfer cydymffurfio. Byddai hyn o ganlyniad i unrhyw anawsterau o fewn y farchnad mewn blwyddyn benodol, megis lleihau nifer y casgliadau neu gau cyfleusterau ailbrosesu, sy'n effeithio ar lefel y cyflenwad o PRNs/PERNs. Pe bai'r cais yn dangos bod y meini prawf yn cael eu bodloni, byddai'r estyniad yn gymwys ar gyfer y flwyddyn honno.

Gan fod y system PRN yn gweithio ar sail y farchnad, mae nifer o amrywiadau arferol o ran y cyflenwad a'r galw cymharol am PRNs/PERNs yn ystod y flwyddyn. Er enghraifft, gallai fod problemau cludiant tymor byr sy'n lleihau'r dystiolaeth PERN sydd ar gael yn gynnar yn y flwyddyn gydymffurfio. Gallai hyn arwain at ragolygon sy'n dangos diffyg, er bod y farchnad yn ymateb gyda mwy o weithgarwch i sicrhau cyflenwad addas. Yn ogystal, gallai unrhyw ddefnydd o PRNs/PERNs o fis Ionawr neu fis Chwefror ar gyfer cydymffurfiaeth ar gyfer y flwyddyn flaenorol olygu bod y diffyg yn cael ei 'gario drosodd' i'r flwyddyn gydymffurfio newydd. Gallai hyn arwain at fater treigl, lle nad yw'r farchnad yn gallu cyflenwi'r tunelli ychwanegol o PRNs/PERNs a ddefnyddir i wneud iawn am y diffyg gwreiddiol. Felly, nid yw'n glir o dan ba amgylchiadau a meini prawf y gallai fod angen defnyddio'r mecanwaith ymestyn.

Felly, byddem yn croesawu barn ar gyflwyno mecanwaith ymestyn, a'r meini prawf neu'r amodau penodol a ddylai fod yn berthnasol i sbarduno'r defnydd o'r estyniad.

### **C10. Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylid cael mecanwaith ar gyfer ymestyn y cyfnod cydymffurfio ar gyfer masnachu PRNs/PERNs?**

- a. Cytuno
- b. Anghytuno
- c. Ddim yn cytuno nac yn anghytuno

Rhowch y rheswm dros eich ymateb.

### **C11. Rhowch fanylion yr amodau neu'r meini prawf a fyddai'n briodol yn eich barn chi i gyflwyno estyniad i'r cyfnod cydymffurfio.**

#### **Opsiwn 3: Cynyddu'r amserlen ar gyfer masnachu PRNs/PERNs o system flynyddol i system dreigl neu aml-flwyddyn**

Mewn system farchnad arferol, dylai newidiadau yn y cyflenwad a'r galw arwain at newidiadau mewn ymddygiad sy'n gweithredu fel mecanwaith cydbwysu i reoleiddio prisiau dros amser. Er enghraifft, byddai cynnydd mewn pris yn arwain at ddefnyddwyr yn prynu llai (gan leihau'r galw) a chynhyrchwyr yn cynyddu'r cyflenwad. Yn y farchnad PRN/PERN, fodd bynnag, mae'r galw'n cael ei bennu gan rwymedigaethau cynhyrchwyr i gael nifer penodol o PRNs/PERNs erbyn diwedd y flwyddyn, gan roi llai o gyfle iddynt ddylanwadu ar y farchnad ar ochr y galw. Mae ailbroseswyr ac allforwyr yn cael eu cyfyngu hefyd o ran nifer y PRNs/PERNs y gallant eu gwerthu mewn blwyddyn benodol gan y targedau ar gynhyrchwyr, ond nid oes rheidrydd arnynt i werthu, felly mae ganddynt fwy o hyblygrwydd i gyhoeddi PRNs/PERNs ar adeg pan fo'r pris yn debygol o fod ar ei uchaf (h.y. Ch4 y flwyddyn gydymffurfio).

Yn ddamcaniaethol, gall cynhyrchwyr ymateb i gynnydd mewn prisiau PRN/PERN drwy leihau faint o ddeunydd pacio y maent yn ei roi ar y farchnad. Mae Rheoliadau 8(c) a 9(4) yn Rhan III o Reoliadau Rhwymedigaethau Cyfrifoldeb Cynhyrchwyr (Gwastraff Deunydd Pacio) 2007 yn caniatáu i gynhyrchwyr ddiweddarau eu gwybodaeth yn ystod y flwyddyn

gydymffurfio, sy'n golygu y gallai cynhyrchwyr ymateb i brisiau PRN/PERN uchel drwy gymryd camau i leihau faint o ddeunydd pacio y maent yn ei ddefnyddio (neu newid fformatau ac ati) ac felly leihau nifer y PRNs/PERNs y mae'n ofynnol iddynt eu prynu yn y flwyddyn gydymffurfio ganlynol. Byddai hyn hefyd yn rhoi cymhelliad i gynhyrchwyr leihau faint o ddeunydd pacio y maent yn ei roi ar y farchnad - un o amcanion allweddol y diwygiadau EPR.

Yn ymarferol, fodd bynnag, byddai'n anodd i gynhyrchwyr leihau'n sylweddol faint o ddeunydd pacio y maent yn ei drin yn yr amser byr sydd ar gael ar gyfer gydymffurfio. Drwy symud i system aml-flwyddyn, awgrymir y byddai hyn yn rhoi mwy o amser i gynhyrchwyr ymateb i brisiau uchel drwy gynhyrchu llai o ddeunydd pacio ac, o ganlyniad, leihau eu rhwymedigaeth a nifer y PRNs/PERNs y mae angen iddynt eu cael.

Ar yr ochr gyflenwi, mae ailbroseswyr wedi'u cyfyngu o ran eu gallu i gynhyrchu PRNs ychwanegol gan eu gallu ffisegol i ailgylchu gwastraff deunydd pacio a'u gallu i gaffael gwastraff i'w ailgylchu (sy'n swyddogaeth lefel y casglu). Mewn egwyddor, byddai prisiau PRN uwch yn gwneud ailgylchu gwastraff deunydd pacio o ansawdd is yn fwy cost-effeithiol ac yn galluogi ailbroseswyr i gynyddu'r cyflenwad o PRNs. Gallai symud o amserlen gydymffurfio un flwyddyn i amserlen aml-flwyddyn roi mwy o amser i ailbroseswyr gynyddu eu buddsoddiad mewn seilwaith a gwella eu gallu mewn ymateb i brisiau PRN uchel.

Bydd diwygiadau ehangach i gasglu gwastraff, gan gynnwys cyflwyno casgliadau ailgylchu gwastraff cartrefi cyson a mwy o arian i awdurdodau lleol ar gyfer casglu gwastraff, yn cynyddu faint o wastraff deunydd pacio sydd ar gael i'w ailgylchu. Bydd gwell cymhellion i gynhyrchwyr ddefnyddio deunydd pacio y mae modd ei ailgylchu drwy'r diwygiadau EPR yn golygu hefyd y gellir ailgylchu cyfran uwch o'r gwastraff hwn a gesglir.

Byddai gosod targedau dros gyfnod o ddwy neu dair blynedd neu gyfnod treigl yn fwy cymhleth yn weinyddol, gan ofyn am gyfrifiadau o rwymedigaethau ar draws sawl blwyddyn, ond gall ganiatáu ar gyfer yr elastigedd cynyddol yn y cyflenwad a'r galw a fyddai'n mynd i'r afael â rhai o'r problemau ansefydlogrwydd yn y farchnad sy'n bodoli ar hyn o bryd.

Byddai'r mecanwaith yn gofyn am ddefnyddio 'data hanesyddol', yn seiliedig ar y cyflwyniadau ynghylch trafod deunydd pacio o flynyddoedd blaenorol i gyfrifo rhwymedigaeth pob cynhyrchydd. Gall hyn fod yn broblem gan fod y diffiniad o gynhyrchydd yn destun newid o dan EPR, ynghyd â'r data y byddai cwmnïau'n ei gyflwyno, sy'n golygu efallai na fydd unrhyw ddata i seilio'r targedau treigl arno. Byddai'n gofyn hefyd am ddiweddariadau amlach yn ystod y flwyddyn wrth i gynhyrchwyr gyflwyno data newydd a/neu ddiwygiedig.

Oherwydd y cymhlethdod a'r materion a amlinellwyd gyda'r cynnig hwn, nid ydym yn ystyried bwrw ymlaen â'r dull hwn ar hyn o bryd oni bai bod cefnogaeth neu dystiolaeth sylweddol yn cael ei darparu o blaid hyn yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad. Pe bai'r opsiwn hwn yn cael ei ddatblygu, byddai angen i ni ofyn am fewnbwn pellach gan randdeiliaid ar bennu targedau ailgylchu aml-flwyddyn.

**C12. Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig i gynyddu'r amserlen ar gyfer masnachu PRNs/PERNs i system dreigl neu aml-flwyddyn?**

- a. Cytuno
- b. Anghytuno
- c. Ddim yn cytuno nac yn anghytuno

Rhowch y rheswm dros eich ymateb.

**C13. Pa ddull gweithredu yw'r un mwyaf addas yn eich barn chi ar gyfer mynd i'r afael â materion ansefydlogrwydd prisiau yn y farchnad PRN/PERN?**

- a. Opsiwn 1
- b. Opsiwn 2
- c. Opsiwn 3
- d. Gallai pob un weithio
- e. Nid wyf yn gwybod digon i roi barn

### **2.2.4 Rhyngwyneb gyda Chynlluniau Dychwelyd Ernes (DRS)**

Fel rhan o'n diwygiadau gwastraff deunydd pacio ehangach, mae'r pedair llywodraeth yn bwriadu cyflwyno Cynlluniau Dychwelyd Ernes (DRS) ar gyfer cynwysyddion diodydd. Rydym yn disgwyl y bydd cyflwyno DRS yn arwain at leihau nifer y cynwysyddion diodydd a deflir, cynyddu cyfraddau ailgylchu cynwysyddion a darparu deunydd eildro o ansawdd uwch i gynhyrchwyr. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod, unwaith y bydd DRS ar waith bod perygl y gallai deunydd DRS sy'n aros mewn casgliadau ar garreg y drws danseilio gweithrediad effeithiol y farchnad PRN/PERN. Byddai hyn yn digwydd pe na bai ailbroseswyr ac allforwyr yn gallu eithrio eitemau DRS sy'n gymysg â gwastraff pecynnu EPR mewn ffordd glir a chadarn wrth gyhoeddi PRNs/PERNs. Gallai hynny arwain at gyflenwi gormod o dystiolaeth, gan wasgu ar brisiau PRN/PERN. Mae hyn yn risg arbennig i alwminiwm a phlastig, gan mai dyma'r prif ddeunyddiau yng nghwmpas y DRS.

Rydym wedi gwneud gwaith modelu ar effeithiau posibl cyflwyno'r DRS ar argaeledd deunyddiau gwastraff, ac effeithiau dilynol ar brisiau PRN/PERN. Yn ystod blynyddoedd cyntaf gweithredu'r DRS, pan ddisgwylir i'r gyfradd gasglu fod yn is - ac yn seiliedig ar y rhagdybiaeth na ellir gwahaniaethu rhwng deunydd DRS a deunydd pacio arall ar ôl ei gasglu i'w ailgylchu gyda gwastraff pecynnu EPR - mae ein dadansoddiad yn dangos bod effaith sylweddol ar faint o PRN/PERNs fydd ar gael. Mae hyn yn arbennig o wir am alwminiwm, a byddai tua 245% o orgyflenwad o dystiolaeth PRN/PERN (yn seiliedig ar gyfradd ddal DRS o 70% yn y flwyddyn gyntaf o weithredu<sup>4</sup>), a fyddai'n arwain at ostyngiad ym mhrisiau PRN/PERN. Mae plastig, gwydr a dur yn cael eu heffeithio yn ein model hefyd, ac amcangyfrifir bod 22%, 9% a 7% o orgyflenwad, yn y drefn honno, o

---

<sup>4</sup> Disgwylir i'r DRS yn yr Alban fod â chyfrad ddal o 80% ym Mlwyddyn 1.

dystiolaeth PRN/PERN. Byddai'r effaith hon yn cynyddu'n sylweddol pe bai gan DRS am unrhyw reswm ddyddiad cychwyn diweddarach nag EPR ac y gellid cyhoeddi PRNs ar gyfer cynwysyddion DRS.

Unwaith y bydd DRS yn gwbl weithredol ac yn cipio 90% o ddeunydd pacio a gwmpesir<sup>5</sup>, mae effaith deunydd pacio DRS a gesglir y tu allan i DRS ar gyfraddau ailgylchu EPR wedi'i dirymu i raddau helaeth ar gyfer pob deunydd ac eithrio alwminiwm. Ar gyfer alwminiwm, amcangyfrifir bod 23% o or-gyflenwad o dystiolaeth PRN/PERN ac, ar gyfer plastig, dur a gwydr, amcangyfrifir bod tua 1-2% o or-gyflenwad. Mae'n debygol, felly, na fyddai deunydd pacio DRS a gesglir ar garreg y drws yn cael fawr o effaith ar brisiau PRN/PERN na chwaith felly ar y dystiolaeth ar gyfer plastig, dur a gwydr erbyn y pwynt hwn. Gallai fod gostyngiad amlwg o hyd ym mhris PRN/PERN alwminiwm, ond gellid disgwyl i hyn fod yn llai nag yn y cyfnod cyn i'r DRS fod yn gwbl weithredol.

**C14. Ydych chi'n credu y byddai cyhoeddi PRNs/PERNs ar gyfer y deunydd DRS sy'n parhau yn y casgliadau wrth garreg drws yn effeithio ar y farchnad PRN/PERN? Os ydych, beth fyddai'r effaith honno, ac os nad ydych, pam?**

- a. Ydw
- b. Nac ydw
- c. Ansicr

Rhowch eich rhesymau am eich ateb.

Rydym wedi nodi sawl opsiwn ar gyfer mynd i'r afael â'r broblem bosibl hon:

**Opsiwn 1: Dod o hyd i ffordd o atal PRNs/PERNs rhag cael eu cyhoeddi ar ddeunydd DRS a gesglir ochr yn ochr â deunyddiau EPR**

Fel y nodwyd uchod, mae'r modelu ar effeithiau DRS yn rhagdybio na ellir gwahaniaethu rhwng deunydd pacio DRS a deunydd pacio arall ar ôl ei gasglu i'w ailgylchu. Os gall ailbroseswyr wahaniaethu'n gywir rhwng deunydd pacio EPR a DRS, a dim ond cyhoeddi PRNs/PERNs ar ddeunydd EPR, byddai'r effeithiau ar brisiau PRN/PERN yn cael eu lleihau ac ni ddefnyddid deunydd DRS i gyfrannu at gwrdd â thargedau ailgylchu EPR.

Gellid gwneud hynny trwy amcangyfrif ar sail gwaith samplu a modelu y cyfran o'r deunydd pacio sydd yn y llif wrth garreg y drws sy'n ddeunydd DRS. Gellid defnyddio un protocol neu fwy nag un.

Gallai hynny fod yn seiliedig ar:

- ddata y mae gofyn i gynhyrchwyr a'r Sefydliadau Rheoli Ernes (DMO) (y 'DRS scheme administrator' yn yr Alban) eu hadrodd, gan nodi nifer yr eitemau DRS a roddir ar y farchnad a nifer yr eitemau y mae'n eu casglu mewn blwyddyn; a

---

<sup>5</sup> Sef y model ar gyfer Blwyddyn 2 DRS yr Alban ac a gynigir ar hyn o bryd fel Blwyddyn 3 DRS gwledydd eraill y DU.

- gwaith samplu'r cynnwys gan ailbrosewyr ac allforwyr.

Gellid defnyddio'r data hyn, ar eu pen eu hunain neu wedi'u cyfuno, i gyhoeddi PRNs/PERNs ar y gyfran gyfatebol o ddeunydd pacio.

Rydym yn deall y gallai, o'i wneud fel hyn, fod yn anodd, hynny oherwydd :

- Ar gyfer rhai deunyddiau - alwminiwm a dur yn arbennig - mae byrnau o ddeunydd yn cael eu cywasgu'n dynn ac nid oes modd eu gwahanu a dadansoddi'u cyfansoddiad.
- Efallai y bydd angen dadansoddi'u cyfansoddiad yn amlach ym mlynnyddoedd cynnar cynlluniau EPR a DRS gan y gall cyfansoddiad y gwastraff newid yn gyflym ac yn fawr.
- Mae rheoleiddwyr eisoes yn wynebu heriau wrth ddilysu bod tystiolaeth yn cael ei chyhoeddi'n gywir. Byddai gorfodi effeithiol yn dod yn bwysicach, ond yn fwy o her, o dan yr opsiwn hwn.

Yn y dyfodol, efallai y bydd modd lleihau'r angen i ailbrosewyr ac allforwyr ddadansoddi cyfansoddiad trwy: 1) welliannau i'r gyfundrefn Cyfleusterau Deunyddiau (MF), a fydd yn gweld gwaith monitro cyfansoddiad amlach a manylach (gan gynnwys rhannu deunydd DRS ac EPR), a 2) cyflwyno proses olrhain gwastraff ddigidol. Fodd bynnag, mae effeithiolrwydd hyn yn ansicr.

O ran yr opsiwn hwn, byddai gofyn i gynhyrchwyr DRS adrodd ar faint o dunelli o ddeunydd pacio y maent yn eu rhoi ar y farchnad yn 2023, hynny o dan OS yr EPR.

Os eir â'r cynnig hwn, byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid (gan gynnwys ailbrosewyr, allforwyr, cynhyrchwyr ymrwymedig, DMOs a rheoleiddwyr) i bennu'n fanwl pa ddata sydd eu hangen gan ailbrosewyr ac allforwyr i gryfhau'r protocolau.

#### **C15. Ydych chi'n cytuno ein bod yn dilyn trywydd modelu a samplu?**

- d. Ydw
- e. Nac ydw
- f. Ansicr

Rhowch eich rhesymau am eich ateb.

#### **16. Ydych chi'n credu y bydd ailbrosewyr ac allforwyr yn gallu gwahaniaethu rhwng deunydd pacio DRS a EPR wrth roi tystiolaeth?**

- a. Ydw
- b. Nac ydw
- c. Ansicr

Rhowch y rheswm dros eich ateb.

## **Opsiwn 2: Rhoi rhwymedigaeth ar gynhyrchwyr DRS i ailgylchu deunydd pacio sydd o fewn cwmpas y DRS ond nad yw'n cael ei gasglu gan y Sefydliadau Rheoli Ernes (DMOs)**

O dan yr opsiwn hwn, byddai rhwymedigaeth ar gynhyrchwyr deunydd pacio sydd yng nghwmpas DRS i ailgylchu'r cyfran o'r deunydd pacio DRS nad yw'n cael ei gasglu gan y mecanweithiau a sefydlwyd gan y DMOs ac sy'n parhau mewn casgliadau ar garreg y drws a chasgliadau eraill. Byddai gofyn i gynhyrchwyr ysgwyddo'u rhwymedigaethau trwy gael PRNs/PERNs. Fel y nodwyd uchod, bydd y cynwysyddion yfed hyn yn cael effaith sylweddol ar argaeledd gwastraff deunydd pacio ar gyfer ei ailgylchu a'r cyflenwad o PRNs/PERNs. Mae hyn yn arbennig o wir am alwminiwm, ond bydd effaith hefyd ar y marchnadoedd PRN/PERN ar gyfer plastig, dur a gwydr (yng Nghymru a'r Alban). Gallai hyn arwain at ostyngiad mewn prisiau PRN/PERN ar gyfer y deunyddiau hyn, gan olygu bod llai o gymhellant i gasglu ac ailgylchu'r deunydd hwn.

Er ein bod yn rhagweld y bydd cyfran gymharol isel o ddeunydd pacio DRS yn parhau mewn casgliadau ar garreg y drws unwaith y bydd DRS yn gwbl weithredol<sup>6</sup>, gallai effeithio o hyd ar brisiau PRN/PERN ar gyfer alwminiwm, gydag amcangyfrif o 23% o or-gyflenwad o dystiolaeth PRN/PERN.

Drwy orfodi cynhyrchwyr DRS i gyfrannu at ailgylchu cyfran o'r deunydd DRS sy'n parhau mewn casgliadau ar garreg y drws, drwy brynu PRNs/PERNs, byddem yn sicrhau i bob pwrpas bod yr holl wastraff deunydd pacio nad yw'n cael ei ailgylchu trwy'r system DRS yn denu rhwymedigaeth cyfrifoldeb cynhyrchwyr. Byddai hyn yn golygu bod rhwymedigaeth cyfrifoldeb cynhyrchwyr yn cyd-fynd â'r union swm o ddeunydd sydd ar gael ar gyfer cynhyrchu tystiolaeth. Dylai hyn helpu i sefydlogi costau'r farchnad PRN/PERN i gynhyrchwyr sydd â rhwymedigaeth i ailgylchu o dan EPR, ond byddai'n cynyddu costau i gynhyrchwyr DRS. Fodd bynnag, gallai olygu bod cynhyrchwyr yn talu costau o dan y ddau gynllun ar gyfer elfennau gwahanol o'r gost o reoli'r deunydd pacio a roddant ar y farchnad; unwaith trwy ffi cynhyrchydd y DRS (ar gyfer casglu a didoli'r eitem a gesglir trwy fecanwaith y DRS) ac unwaith trwy'r gofyn i brynu PRNs/PERNs (ar gyfer ailgylchu'r eitem os nad yw wedi'i gasglu trwy fecanwaith y DRS).

Fel gydag opsiwn 1, bydd gofyn i gynhyrchwyr DRS nodi faint o dunelli o ddeunydd pacio a roddant ar y farchnad yn 2023 o dan OS yr EPR.

Byddai'r opsiwn hwn yn fwy cadarn hefyd yn erbyn camgymeriad a chyhoeddi PRNs/PERNs ar ddeunydd DRS yn dwyllodrus, gan y byddai rhwymedigaethau cynhyrchwyr yn cyd-fynd â'r union swm o ddeunydd ychwanegol sydd ar gael ar gyfer cynhyrchu PRNs/PERNs. Os caiff y cynnig hwn ei ddatblygu, y cam nesaf fyddai dylunio mecanwaith teg i bennu cyfran y rhwymedigaeth ychwanegol y byddai angen i bob cynhyrchydd ei bodloni.

---

<sup>6</sup> Tua 10% o DRS erbyn Blwyddyn 2 yn yr Alban ac erbyn Blwyddyn 3 yng ngweddill y DU.



### **Opsiwn 3: Cynyddu rhwymedigaeth cynhyrchwyr EPR i ailgylchu i gynnwys deunydd pacio DRS nad yw'n cael ei gasglu trwy DRS**

Yn y senario hwn, cynyddir y rhwymedigaeth ar gynhyrchwyr deunydd pacio EPR i ailgylchu er mwyn adlewyrchu'r deunydd DRS nad yw'n cael ei gasglu gan lwybrau DRS sy'n parhau mewn casgliadau ar garreg y drws.

Byddai'r rhwymedigaethau ar gynhyrchwyr EPR mewn perthynas â deunyddiau yr effeithir arnynt yn cynyddu yn unol â chyfran y deunyddiau sy'n parhau mewn casgliadau ar garreg y drws, i adlewyrchu'r gorgyflenwad o PRN/PERNs a ragwelir (a achosir gan yr eitemau DRS yn cael eu hailgylchu gyda gwastraff pecynnu nad yw'n DRS). Felly, byddai gofyn i gynhyrchwyr EPR brynu digon o PRNs/PERNs i gyrraedd y targedau uwch hyn. Nid yw hyn yn annhebyg i'r dull 'targedau busnes' a ddefnyddir ar hyn o bryd wrth ymdrin â deunydd pacio gan gynhyrchwyr bach o dan y trothwy de-minimis nad oes angen iddynt brynu PRNs/PERNs. Ond ar gyfer deunydd fel alwminiwm, byddai'r cynnydd yn sylweddol fwy.

Bwriedir i'r cynnydd hwn yn y targedau (yn enwedig cyn bod y DRS yn gweithio i'w lawn botensial) sicrhau nad oes unrhyw newid yn neinameg y cyflenwad a'r galw yn y farchnad PRN a chyfyngu'r gostyngiad a ragwelir ym mhris PRNs/PERNs.

Felly, un o ganlyniadau cynnal gwerth PRN/PERN yn llwyddiannus fyddai bod gan gynhyrchwyr EPR fwy o ymrwymiad ac y bydd eu costau cydymffurfio felly yn fwy nag y byddai pe na bai unrhyw ddeunyddiau DRS yn parhau mewn casgliadau ar garreg y drws. Yn enghraifft alwminiwm uchod, gallai hyn olygu bod cyfanswm cost cydymffurfio i gynhyrchwyr EPR godi i fwy na dwbl (245%) yr hyn y byddent yn ei dalu fel arall ym mlwyddyn gyntaf DRS (gan ragdybio cyfradd dychwelyd ernes o 70%), a 23% yn fwy yn nhrydedd flwyddyn DRS wrth weithredu ar gyfradd dychwelyd ernes ddisgwyliedig o 90%.

Fel yn achos Opsiynau 1 a 2, bydd hyn yn ei gwneud yn ofynnol i gynhyrchwyr DRS adrodd ar y tunelli o ddeunydd pacio y maent yn eu rhoi ar y farchnad yn 2023.

#### **C17. Pa un o'r opsiynau uchod sy'n well gennych?**

- a. Opsiwn 1
- b. Opsiwn 2
- c. Opsiwn 3

Rhowch y rheswm dros eich ateb.

#### **C18. Ydych chi'n credu y bydd unrhyw broblemau yn y broses ymarferol o weithredu:**

##### **Opsiwn 1?**

- a. Ydw

- b. Nac ydw
- c. Ansicr

### **Opsiwn 2?**

- a. Ydw
- b. Nac ydw
- c. Ansicr

### **Opsiwn 3?**

- a. Ydw
- b. Nac ydw
- c. Ansicr

Os oedd 'ydw' yn ateb i unrhyw rai o'r uchod, rhowch eich rheswm.

## **2.2.5 Prawf 'Cymhwysedd Gweithredwyr' ar gyfer cynlluniau cydymffurfio, ailbroseswyr ac allforwyr**

Yn yr ymatebion i ymgynghoriad EPR 2021, nodwyd nad oes unrhyw ddarpariaethau ar hyn o bryd yn Rheoliadau 2007 i reoleiddwyr wrthod neu ddirymu cymeradwyaeth mewn perthynas â chynlluniau cydymffurfio yn seiliedig ar asesiad o gymhwysedd gweithredwyr. Gall hyn arwain at gymeradwyo ceisiadau hyd yn oed pan fo gan reoleiddwyr bryderon sylweddol ac amlwg ynghylch hanes a chefnidir gweithredwr y cynllun cydymffurfio. Yna, mae'n cymryd llawer o amser a chost i fonitro gweithredwyr sydd â phroblemau hysbys neu broblemau posibl. Yn yr ymgynghoriad, gwnaethom gynnig cyflwyno Cod Ymarfer a/neu brawf 'cymhwysedd technegol' ar gyfer gweithredwyr cynlluniau cydymffurfio. Cafodd y cynigion hyn lefel uchel o gefnogaeth, gydag 81% o'r ymatebwyr yn cefnogi cyflwyno Cod Ymarfer a phrawf cymhwysedd. Mae Ymateb y Llywodraeth yn nodi ein hymrwymiad i gyflwyno prawf cymhwysedd gweithredwyr fel gofyniad i gymeradwyo cynlluniau cydymffurfio, ac i ymgysylltu â'r PSF a'r rheoleiddwyr ynghylch datblygu Cod Ymarfer newydd.

Rydym yn cynnig y dylai prawf cymhwysedd gweithredwyr gael ei gyflwyno ar gyfer sefydliadau sy'n ceisio cymeradwyaeth i weithredu cynlluniau cydymffurfio cynhyrchwyr ac ar gyfer achrediad ailbroseswyr ac allforwyr. Byddai hyn yn ei gwneud yn ofynnol i fanylion hanes perthnasol, megis peidio â bodloni amodau trwydded neu dorri gofynion deddfwriaethol perthnasol eraill, megis yn achos allforwyr yn torri Rheoliadau Cludo Gwastraff, gael eu hystyried. Gallai methu â darparu'r manylion y gofynnwyd amdanynt, neu fethu â bodloni amodau'r prawf, arwain at wrthod unrhyw gais a/neu ganslo unrhyw achrediad sydd ar waith, neu ddirymu cymeradwyaeth y cynllun. Bwriedir i'r prawf gynyddu lefel y cymhwysedd yn y sector, gan leihau'r risgiau i aelodau'r cynllun o beidio â chydymffurfio â'r amodau a'r gofynion ychwanegol a gyflwynwyd o dan y diwygiadau EPR.

Dylai Cyfarwyddwr a/neu Bartner fod â chyfrifoldeb cyffredinol dros sicrhau bod person 'cymwys' yn y busnes. Y rheswm am hyn yw yr hoffem i'r cyfrifoldeb dros sicrhau bod gan y gweithredwr arbenigedd technegol addas fod ynghlwm wrth rywun sy'n gyfrifol am y cwmni, ac efallai na fydd y Cyfarwyddwyr a/neu'r Partneriaid yn y sefyllfa orau os nad ydynt yn gyfrifol am weithrediadau o ddydd i ddydd.

Byddai'r prawf yn rhan o'r broses gymeradwyo i weithredu cynllun cydymffurfio, neu fel ailbrosesydd/allforiwr achrededig, a byddai'n ei gwneud yn ofynnol i'r gweithredwr ddangos:

- bod ganddo system reoli ddigonol;
- bod ganddo gymhwysedd technegol digonol;
- bod ganddo gymhwysedd ariannol digonol;
- nad oes ganddo hanes o ymddygiad gwael, diffyg cydymffurfio blaenorol â gofynion rheoliadol, twyll neu euogfarnau perthnasol eraill.

Gallai'r prawf fod yn rhan o gofrestrriad neu achrediad blynyddol y cynllun a byddai angen iddo gwmpasu unrhyw newidiadau materol a fyddai'n effeithio ar gymhwysedd y gweithredwr.

### **C19. Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylid cyflwyno prawf cymhwysedd gweithredwr ar gyfer cynlluniau cydymffurfio?**

- a. Cytuno
- b. Anghytuno
- c. Ddim yn cytuno nac yn anghytuno

Rhowch y rheswm dros eich ymateb.

### **C20. Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â chyflwyno prawf cymhwysedd gweithredwr ar gyfer ailbroseswyr ac allforwyr achrededig?**

- a. Cytuno
- b. Anghytuno
- c. Ddim yn cytuno nac yn anghytuno

Rhowch y rheswm dros eich ymateb.

## **2.3 Cais am Dystiolaeth**

Yn ogystal â'r diwygiadau a gynigir uchod, rydym yn gofyn am wybodaeth ychwanegol am opsiynau eraill ar gyfer mynd i'r afael â'r problemau a nodwyd gyda'r system PRN/PERN bresennol o dan Reoliadau 2007. Mae hyn yn cynnwys barn ar awgrymiadau blaenorol gan randdeiliaid, megis cyflwyno ffi cydymffurfio i gynhyrchwyr sy'n methu â chyflawni eu rhwymedigaethau.

### 2.3.1 Ffi Cydymffurfio

Mae Rheoliadau Rhwymedigaethau Cyfrifoldeb Cynhyrchwyr (Gwastraff Deunydd Pacio) 2007 yn cael eu gorfodi gan reoleiddwyr ym mhob un o'r pedair gwlad (Asiantaeth yr Amgylchedd, Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), y Scottish Environment Protection Agency (SEPA) a'r Northern Ireland Environment Agency (NIEA)). Rhaid i gynhyrchwyr gofrestru gyda'r rheoleiddiwr perthnasol a thalu ffi gofrestru (naill ai'n uniongyrchol neu drwy aelodaeth o gynllun cydymffurfio cofrestredig) sy'n mynd tuag at ariannu gwaith monitro. Gall cynhyrchwyr a chynlluniau cydymffurfio sy'n methu â chydymffurfio â'r Rheoliadau fod yn destun sancsiwn sifil neu gael eu herlyn, a gall ailbroseswyr ac allforwyr gael eu hachrediad wedi'i atal neu ei ganslo.

Cyn ymgynghoriad 2021, galwodd amryw o randdeiliaid am gyflwyno math o ffi cydymffurfio ar gyfer y system deunydd pacio, yn debyg i'r un sy'n gweithredu ar gyfer y system WEEE. Byddai hyn yn fecanwaith i ganiatáu i gynhyrchwyr a chynlluniau gyflawni eu rhwymedigaethau drwy dalu 'ffi' yn hytrach na chael PRNs/PERNs, pe bai prinder tystiolaeth, ac i osgoi camau gorfodi am beidio â chydymffurfio. Cynigiwyd hyn, er enghraifft, yn 2020 yn ystod pandemig Covid-19 ac yn dilyn y cyfyngiadau ar allforion plastig i Tsieina yn 2019, pan ragwelwyd nad oedd digon o PRNs/PERNs ar y farchnad i gynhyrchwyr gyrraedd eu targedau (er gwaethaf eu hymdrechion gorau). Mae cynhyrchwyr a chynlluniau cydymffurfio wedi awgrymu bod angen mecanwaith ffi cydymffurfio oherwydd y posibilrwydd o brinder PRNs/PERNs ac unrhyw brisiau uchel sy'n dilyn, a allai achosi gofid i fusnesau a chynlluniau cydymffurfio. Mae pwerau i gyflwyno ffi cydymffurfio wedi'u cynnwys yn Neddf yr Amgylchedd 2021.

Y brif ddadl dros fecanwaith ffi cydymffurfio yw y byddai'n lliniaru yn erbyn amrywiadau mawr ym mhrisiau PRNs/PERNs, gan weithredu fel math o falf pwysedd, ac felly'r posibilrwydd o ddiffyg cydymffurfio ar raddfa fawr gan gynlluniau cydymffurfio neu gynhyrchwyr os nad oes digon o PRNs/PERNs yn cael eu cynhyrchu (mewn marchnad lle nad oes angen i'r gwerthwr werthu, ond mae angen i'r prynwr brynu er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth). Mae opsiwn sancsiynau sifil (Ymgymeriad Gorfodi) ar gyfer cynlluniau sy'n methu â chyflawni eu rhwymedigaethau i osgoi erlyniad, er ei fod yn sancsiwn ffurfiol. Y gwahaniaeth rhwng mecanwaith ffi cydymffurfio ac Ymgymeriad Gorfodi yw bod rhaid i'r cynllun, o dan y llwybr Ymgymeriad Gorfodi, wneud pob ymdrech resymol i gydymffurfio â'i rhwymedigaethau i gael PRNs/PERNs, a dim ond ar ôl iddo fethu â gwneud hynny y gall wneud cais am Ymgymeriad Gorfodi. Bu pryder y byddai'r ffi cydymffurfio'n caniatáu i'r cynlluniau 'optio allan' i bob pwrpas a rhoi'r gorau i ymdrechu i gael PRNs/PERNs (a chefnogi ailgylchu) pan fyddant yn teimlo bod y costau'n ormodol.

Mae beirniaid y cynigion hyn wedi awgrymu y gallai cynhyrchwyr ystyried ffi cydymffurfio fel opsiwn haws na chaffael PRNs/PERNs, gan danseilio sylfaen y system sy'n seiliedig ar y farchnad ac arwain at lefelau is o ailgylchu a methiant i gyrraedd targedau ailgylchu. Byddai angen cydbwysedd teg wrth bennu prisiau er mwyn sicrhau bod methu â chydymffurfio â rhwymedigaethau i gael PRNs/PERNs a defnyddio'r mecanwaith ffi cydymffurfio'n fwy costus na phrynu PRNs/PERNs bob amser. Bydd hyn yn atal rhoi'r rhai

sydd wedi gallu cael digon o PRNs/PERNs o dan anfantais a bydd yn annog cynhyrchwyr i beidio â 'chynllunio i fethu'.

Mae llawer o'r dadleuon dros gyflwyno ffi cydymffurfio (ansefydlogrwydd prisiau; prinder PRN posibl) yn cael sylw yn y cynigion eraill a gyflwynwyd yn yr ymgynghoriad hwn. Er enghraifft, mae'r opsiynau a gynigir yn Adran 2.2.3 (gan gynnwys ymestyn hyblygrwydd y cyfnod cydymffurfio presennol a/neu bennu terfynau amser ar werthu PRNs/PERNs) yn ceisio lleihau amrywiadau mewn prisiau cylchol yn y farchnad PRN a mynd i'r afael â diffygion posibl yn y dystiolaeth sydd ar gael mewn blwyddyn gydymffurfio benodol. Os cânt eu datblygu, gall y cynigion hyn wneud mecanwaith ffi cydymffurfio yn ddiangen, a gallai cyflwyno mecanwaith ffi cydymffurfio effeithio ar weithrediad y cynigion eraill hefyd, megis ymestyn y flwyddyn gydymffurfio (Adran 2.2.3, Opsiwn 2).

Bydd cynigion gwastraff deunydd pacio EPR ehangach, gan gynnwys adroddiadau data amlach a gofynion adrodd ychwanegol ar gyfer ailbroseswyr ac allforwyr, yn cynyddu tryloywder y farchnad hefyd ac yn rhoi mwy o wybodaeth i gynhyrchwyr am argaeledd dystiolaeth. Felly, rydym am ohirio penderfyniad ar gyflwyno ffi cydymffurfio hyd nes y daw'r mesurau eraill hyn i rym, oni bai bod cefnogaeth neu dystiolaeth sylweddol o blaid hynny yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwn.

**C21. Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â chyflwyno ffi cydymffurfio ar gyfer cynhyrchwyr nad ydynt yn cael digon o PRNs/PERNs i gyflawni eu rhwymedigaethau?**

- a. Cytuno
- b. Anghytuno
- c. Ddim yn cytuno nac yn anghytuno

Rhowch y rheswm dros eich ymateb.

**C22. Ydych chi'n credu y byddai cyflwyno ffi cydymffurfio yn dal i fod yn angenrheidiol ar ben y cynigion (a amlinellir yn Adran 2.2) i fynd i'r afael â'r materion sy'n ymwneud ag ansefydlogrwydd prisiau?**

- a. Ydw
- b. Nac ydw
- c. Ansicr

Os 'ydw', rhowch y rheswm dros eich ymateb.

**Os oes gennych unrhyw awgrymiadau eraill ar gyfer gwelliannau i weithrediad y farchnad PRN/PERN, dylech gynnwys manylion yma.**